



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

- 1: Gwaith teg:** Sicrhau mynediad cyfartal i swyddi gweddus, gan gydnabod gwerth pawb
- 2: Cyfleoedd addysgol:** Galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd i'w cyflawni
- 3: Cyfranogiad: Rhoi** cyfleoedd cyfartal i bobl gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, i alluogi canlyniadau cyfartal
- 4: Canlyniadau iechyd cyfartal:** Deall achosion a symptomau anghydraddoldebau iechyd, yn cynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Cham-drin Domestig yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,
diffinnir y nod hwn fel

*“Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni
waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys
eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).”*



Diffinio'r nod

Mae cydraddoldeb yn fater i bawb. Mae tlodi, sy'n gwaethygu yng Nghymru, yn arwain at fwlch amlycach yng nghyfleoedd pobl sy'n cael eu geni i mewn i wahanol gefndiroedd cymdeithasol-economaidd.

Er gwaethaf y cynnydd yn lefelau cyflogaeth, nid yw gwaith o reidrwydd yn arwain at safon bywyd digonol. Hefyd, dywed un o bob pedwar o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol eu bod yn unig yng Nghymru yn 2017-18; mae bron i dair gwaith yn fwy o bobl anabl yn dweud eu bod yn dioddef o iechyd meddwl gwael na phobl nad ydynt yn anabl, ac mae un o bob tair menyw yng Nghymru'n profi trais corfforol neu rywiol ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae'n glir bod angen gwneud llawer mwy o fewn ein sefydliadau ac ar lefel cenedlaethol, a hyn yn golygu mynd tu hwnt i'r dyletswyddau a nodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru, drwy gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod dyfodol Cymru'n un lle mae gan bobl nid yn unig gyfleoedd cyfartal, ond canlyniadau cyfartal.

Mae gennym i gyd ran i'w chwarae yn y dasg o sicrhau fod pobl yn medru cyflawni eu potensial ni waeth o ble maent yn dod, yn amrywio o sicrhau mynediad i swyddi gweddus drwy waith teg, i fynediad i gyfleoedd addysgol, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn penderfyniadau, a gweithredu ar anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd.



Astudiaethau achos

Drwy gydol y ddogfen byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os welwch chi'r symbol hwn.



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu eich gweithrediadau wrth gyfrannu at y nod hwn

Sicrhau bod gan bobl fynediad cyfartal i swyddi gweddus, gan gydnabod gwerth pawb.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 1: Gwaith teg)

Galluogi pobl i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth i gyflawni eu potensial.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 2: Cyfleoedd addysgol)

Rhoi i bobl gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, i alluogi canlyniadau cyfartal.

(Gweler Taith tuag at Gymru fwy cyfartal 3: Cyfranogiad)

Cefnogi dealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 4: Cydraddoldeb a chanlyniadau iechyd)

Cefnogi dealltwriaeth o bwysigrwydd cefndir ac amgylchiadau cymdeithasol-economaidd pobl yng nghyflawniad eu potensial.

(Pwnc taith ar anghydraddoldeb cymdeithasol-economaidd i gael ei gynnwys yn y cyfnod nesaf)

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac mewn cymdeithas ehangach. Disodlwyd deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol pan grewyd un Ddeddf, gan wneud y gyfraith yn haws ei deall a chryfhau amddiffyniad mewn rhai achosion. Mae'n nodi'r gwahanol ffyrdd a ddefnyddir i drin pobl yn anghyfreithlon.

Am wybodaeth a chanllawiau gweler <https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance>, yn cynnwys canllawiau sy'n berthnasol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Bwriad y **Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** yw gwella'r trefniadau ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o, ac atal, amddiffyn, a chynorthwyo dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Darparir dolennau i ganllawiau drwy'r holl ddogfen hon, a gellir dod o hyd i'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn <https://gov.wales/national-training-framework-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-statutory>.



Mae rhai o'r camau a'r gweithredoedd a awgrymir yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir yn y ddeddfwriaeth - camau a gweithrediadau penodol sydd ynghlwm wrth y rhain yw'r rhai a amlygir mewn oren gyda'r symbol 'St'.

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy **tebygol o ddigwydd...**


- Pan fydd amrywiaeth yn cael ei ddathlu.
- Pan fydd pobl yn deall beth a olygir gan greu Cymru fwy cyfartal, a phwysigrwydd trawsdoriadoldeb (sut mae gwahanol agweddau ar wahaniaethu'n gorgyffwrdd/croesdorri).
- Pan fydd sefydliadau'n cydnabod bod ganddynt waith i'w wneud yn y maes hwn yn nhermau cynrychiolaeth staff.
- Pan fydd buddsoddiad mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei gydnabod fel rhywbeth 'sy'n gwneud synnwyr busnes da', nid yn unig fel y peth 'moesol' i'w wneud.
- Pan werthfawrogir bod creu Cymru fwy cyfartal yn effeithio'n gadarnhaol ar y nodau llesiant eraill.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn llai **tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd y gwaith o wella cydraddoldeb yn disgyn yn unig ar y 'tîm cydraddoldeb'.
- Pan fydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei weld fel 'rhywbeth braf i'w gael' yn hytrach nag fel rhan hanfodol o fusnes o ddydd i ddydd.
- Pan fydd gwneud unrhyw beth tu hwnt i'r gofyniad cyfreithiol lleiaf yn cael ei weld fel defnydd gwael o adnodd (e.e. gwneud gwybodaeth yn rhywbeth hygyrch).
- Pan fydd cymhlethdod trawsdoriadoldeb (sut mae gwahanol agweddau ar wahaniaethu'n gorgyffwrdd/croesdorri) heb gael ei werthfawrogi.
- Pan na fydd dealltwriaeth o'r cysyniad o fraint.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

4: Cydraddoldeb a chanlyniadau iechyd

Deall achosion a symptomau anghydraddoldebau iechyd, yn cynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a Thrais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Diffinio'r mater

Tra bo iechyd yn gyffredinol wedi parhau i wella yng Nghymru, mae anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd yn dal yn her fawr iawn, megis mewn llawer o wledydd eraill. Gwyddom fod iechyd da yn dibynnu ar lawer mwy na darpariaeth gwasanaethau iechyd da - tra bo gan wasanaethau iechyd rôl bwysig i'w chwarae yn y dasg o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, gwyddom eu bod yn deillio fel canlyniad i anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd sy'n llunio'r amodau o fewn y rhain mae pobl yn cael eu geni, tyfu, byw, dysgu gweithio a heneiddio. Mae achosion cymhleth anghydraddoldebau iechyd felly'n golygu ei bod yn ofynnol i fabwysiadu cyfuniad o ymagweddau i fynd i'r afael â nhw, gydag un elfen allweddol yn ymwneud â sefydlu gweithredu ar draws holl feysydd polisi

drwy ymagwedd 'Iechyd ym mhob Polisi'. Adroddodd 72% o ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru iechyd 'Da iawn/Da', gyda hyn yn fwy tebygol ymhlith atebwyr iau (16-34 mlwydd oed); dynion a chartrefi nad oedd yn dioddef amddifadedd materol. Yn 2017, y gyfradd hunanladdiad wedi'i safoni yn ôl oedran yng Nghymru oedd 13.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth, gyda'r gyfradd yn uwch ymhlith dynion (20.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth) na menywod (5.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth (SYG(2018)). Yn ôl Arolwg Trosedd Lloegr a Chymru (CSEW) am y flwyddyn yn gorffen ym Mawrth 2018, amcangyfrifir bod 9% o fenywod (1.3 miliwn) a 4.2% o ddynion (695,000) wedi profi cam-drin domestig yn Lloegr a Chymru yn y flwyddyn ddiwethaf.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru Iachach Pwnc 1: Trin pobl gyda thosturi

Gwneud Newidiadau Syml

Sicrhewch fod staff yn ymgymryd â hyfforddiant mewn [Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod](#).

E.e. <https://youtu.be/YiMjTzCnbNQ>

Sicrhewch fod teithio llesol yn ddiodyn pan fyddwch yn dewis lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd neu ddigwyddiadau, tra'n sicrhau bod yna le i barcio i bobl anabl.

Byddwch yn dryloyw am faint o asesiadau gofalwyr y maent wedi eu cwblhau, yn ddelfrydol ar eich gwefan.

Sicrhewch eich bod yn annog pobl yr ydych yn gweithio gyda nhw â ganddynt anawsterau dysgu i fanteisio ar eu hawl i wiriad iechyd blynyddol.

Os yr ydych yn gweithio gyda theluoedd sydd wedi eu heffeithio gan garchariad, dewiswch aelod o'r staff fel un pwynt cyswllt mewn ysgolion i gydgyssylltu â theluoedd sy'n cael eu heffeithio gan garchariad.

E.e. Mae yna brosiect partneriaeth ar hyn yng Ngogledd Cymru. [Teuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan garcharu.](#)

Buddsoddwch mewn gwasanaethau cyfeithu, (BSL, braille) er mwyn grymuso pobl i gymryd camau ataliol.

Cymerwch ran yn "[Mae'n Gwneud Synnwyr](#)" (mis ymwybyddiaeth o nam ar y synhwyr) yn Nhachwedd.

E.e. Mae **Gwasanaeth Ambiwylans Cymru** wedi llwyddo i gynnal digwyddiadau yn ystod Mis Ymwybyddiaeth o nam ar y synhwyr.

Adolygwch sut fedr technoleg helpu i wella'r gwasanaethau a gynigir gennych i bobl yn wynebu rhwystrau cyfathrebu, er enghraifft defnyddio 'llinell iaith' neu debyg, 'apiau' ar gyfer cyfathrebu drwy iaith Arwyddion Prydain.

E.e. Mae Barnardo's yn annog pob ysgol yng Nghymru i ddefnyddio [pecyn hyfforddi newydd fel y gall staff helpu disgyblion i oresgyn effeithiau niweidiol trawma mewn plentyndod cynnar.](#)

Gwneud **Newidiadau** Syml

Casglwch ddata neu cynorthwywch ddadansoddiad a'r defnydd o ddata ar VAWDASV, a'u dadgyfuno yn ôl oedran, hil, statws economaidd-gymdeithasol, ymhlith ffactorau eraill. Dangosyddion Cenedlaethol [VAWDASV Llywodraeth Cymru](#).

Bod Yn Fwy Anturus

Mapiwch eich gwasanaethau, nodwch ble mae angen i staff fod yn wybodus am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a datblygwch gynllun gweithredu ar gyfer hyfforddiant.

Cydweithiwch gyda sefydliadau megis Gofalwyr Cymru i hybu cyfleoedd i ofalwyr i ddangos eu sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth bosibl yn y dyfodol.

Cynyddwch fynediad i'ch gwasanaethau ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn cynnwys drwy wella gweithgareddau ymgysylltu i ddatblygu lefelau ymddiriedaeth.

E.e. Mae gan [Tros Gynnal Plant](#) brosiect sy'n ymgysylltu â [Sipsiwn, Roma a Theithwyr](#) a fedr fod yn bwynt cyswllt cychwynnol defnyddiol.

Gwellwch hygyrchedd ac ansawdd y gwasanaethau cyfeithu sydd ar gael i fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches pan fyddant yn cyrchu eich gwasanaethau.

Lle mae hynny'n bosibl, gwnewch gontractau lleiafrif o dair blynedd ar gyfer gwasanaethau cymorth, yn cynnwys ar gyfer gofalwyr, fel nad yw biwrocratiaeth yn cael blaenoriaeth dros ddarpariaeth gwasanaeth mewn meysydd darpariaeth sy'n wynebu toriadau.

Datblygwch ymgyrchoedd cadarnhaol i annog dioddefwyr trosedd casineb i adrodd a thynnu mwy o sylw at ganlyniadau cyfawnder troseddol llwyddiannus o fywyd go iawn.

ee

E.e Mae **Heddlu Dyfed Powys** yn hyrwyddo wythnos [ymwybyddiaeth o droseddau casineb](#).

St

Ystyriwch sut y gallwch ddarparu arweinyddiaeth VASDASV strategol. Ar lefel cenedlaethol, rhaid i iechyd fod yn rhan allweddol o strategaeth [genedlaethol traws-lywodraeth](#) a fframwaith gyflawni. Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol fod yn rhan annatod o strategaethau lleol ac/neu ranbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu [Canllawiau Strategaeth Leol](#) a ddylai drwytho gweithredu ar lefelau lleol a ranbarthol.

ee

CARTREF

Bod Yn Fwy Anturus

Sicrhewch fod staff yn ymwybodol o lwybrau cyfeirio clir i gymorth arbenigol ac ymyrraeth yn achos cyflawnwyr trais. Gwellwch fynediad i wasanaethau gofal iechyd safonol drwy integreiddio adnabyddiaeth o, a gofal am y rhai sy'n cael eu heffeithio gan VAWDASV, yn cynnwys yn ystod beichiogrwydd, a thrais rhywiol: iechyd rhywiol ac atgenhedlu; iechyd mam a phlentyn, iechyd meddwl; gwirio rheolaidd a gwasanaethau brys.

E.e. Rhaglen hyfforddi a chyfeirio seiliedig ar bractis cyffredinol ar gam-drin domestig a thrais rhywiol yw [Identification and Referral to Improve Safety \(IRIS\)](#).

Sicrhewch fod staff iechyd a gofal cymdeithasol wedi eu hyfforddi'n ddigonol i atal VAWDASV a chynorthwyo ac amddiffyn goroeswyr. Dylai hyn cynnwys adnabod ac atgyfeirio goroeswyr a chyflawnwyr.

Mae gan **Gyrff Cyhoeddus** ddyletswydd i atal VAWDASV ac amddiffyn a chynorthwyo goroeswyr. O dan y [Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol](#) dylai pawb a gyflogir gwblhau hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o VAWDASV lefel 1, a dylai staff perthnasol gwblhau hyfforddiant Gofyn a Gweithredu. Dylai pob arweinydd strategol ymgysylltu â hyfforddiant mewn arweinyddiaeth strategol ar VAWDASV lefel 6.

Cryfhewch ymgysylltiad â phartneriaethau a gyda gwasanaethau arbenigol ac arweinyddion cymunedau ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth cymunedau o ganlyniadau iechyd yn dilyn VAWDASV, y gwasanaethau sydd ar gael a phwysigrwydd chwilio am wasanaethau iechyd mewn da bryd.

E.e. Yn Lloegr, mae Iechyd Cyhoeddus Lloegr wedi cynorthwyo cyflwyniad y Fenter Gwyliedydd. Datblygwyd [Y Fenter Ymyrraeth Gwyliedydd](#) gyda myfyrwyr i ennyn ymgysylltiad myfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch fel pecyn cymorth addysgol ar gyfer atal gorfodaeth mewn prifysgolion a cholegau.

Bod Yn Fwy **Anturus**

Sicrhewch safon gofal ar gyfer goroeswyr VAWDASV a chydweithiwch gyda gwasanaethau arbenigol i ddarparu ymateb holistig. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan weithwyr iechyd ymwybyddiaeth o'r rhyngweithio rhwng VAWDASV, ymddygiadau a phroblemau sy'n berygl i iechyd, gan adnabod a mynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad i wasanaethau i oroeswyr VAWDASV, yn cynnwys fel rhan o ymdriniaeth iechyd cyffredinol.

E.e. [Canllaw NICE](#) ar gam-drin domestig sy'n berthnasol i holl wasanaethau iechyd yng Nghymru.

ee

CARTREF

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cenedlaethol neu gydweithredol

Sicrhewch fod y rhai sy'n goroesi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu rywiol, yn derbyn cymorth priodol a phrydlon, yn cynnwys cymorth arbenigol i fenywod o leiafrifoedd ethnig, menywod anabl, menywod ag anghenion cymhleth a phlant a phobl ifanc.

Gweithredwch wasanaeth hunaniaeth o ran rhywedd cwbl integredig yng Nghymru a monitrwch yr effaith ar ganlyniadau iechyd pobl drawsrywiol yng Nghymru.

Gweithredu sefydliadol

Gweithiwch gydag eraill i lunio gwasanaeth ymyrraeth risg uchel ar gyfer trais domestig a rhowch wybod am hyn i'ch staff a phobl yr ydych yn gweithio gyda nhw.

E.e. Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr a Heddlu De Cymru.

Gweithiwch gydag eraill i ddylanwadu ar rôl trafndiaeth mewn cadw pobl yn ddiogel ac iach - er enghraifft gosod goleuadau stryd lle gall fynd i'r afael â phryderon diogelwch neu ddarpariaeth seilwaith sy'n annog mwy o fenywod i feicio.

Rhedwch fentrau ar y cyd â grwpiau cymunedol lleiafrifoedd ethnig er mwyn adeiladu ymddiriedaeth a dealltwriaeth.

E.e. Prosiect coginio **Women Connect First.** Arweiniodd y prosiect hwn at well cysylltiadau a mwy o wybodaeth am droseddau. <https://www.youtube.com/watch?v=xb0I3ErkeAU>.

Os yr ydych yn gweithio gyda theuluoedd neu blant byddar, cynorthwywch nhw i gael cynnig cymorth holl gynhwysfawr, yn cynnwys y cyfle i'r teulu agos ddysgu iaith Arwyddion Prydain er mwyn cyfathrebu gyda'u plentyn neu frawd neu chwaer.

ee

ee

Enghreiffitiau ac adnoddau eraill



[Llawlyfr i reolwyr iechyd-](#)

Sefydliad Iechyd y Byd (yn nodi arfer seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cryfhau systemau iechyd i ymateb i fenywod sy'n dioddef trais gan bartner agos neu drais rhywiol).



[RESPECT - Atal trais yn erbyn menywod: Fframwaith ar gyfer llunwyr polisi](#)

- Sefydliad Iechyd y Byd (yn amlinellu camau, o'r unigolyn i'r gymuned i gymdeithas, y gellid eu cymryd i atal VAWDASV).



[Cynllun 'gofynnwch i mi'](#)

- Cymorth i Fenywod Cymru (eu bwriad yw maxsimeiddio dealltwriaeth cymunedau drwy ddarparu hyfforddiant dau ddiwrnod ar sut i dorri'r tawelwch a chodi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a merched).



[Gweithwyr Proffesiynol](#)

[Dibynadwy](#) - Mae Cymorth i Fenywod (yn darparu cwrs hyfforddiant un dydd wedi ei gynllunio i wella sgiliau gweithwyr proffesiynol a chysylltiad â goroeswyr posibl ac/neu'r rhai sy'n gyfrifol am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig ac/ neu drais rhywiol i 'adnabod yr arwyddion, ymateb i ddatgeliadau a chyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol).